

CYNGOR TREF PORTHMADOG



289.2.23

Oherwydd profedigaeth teuluol bu rhaid gohirio Cyflwyniad gan Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeisdrefol Cyngor Gwynedd am gynlluniau arfaethedig ar gyfer y Parc, Porthmadog tan Fawrth 14 2023.

Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Chwefror 14 2023

Presennol :- Cyngorwyr :- Aled Griffith, Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, Sandra Bodden-Jones, Connor Westwood, Michael Roberts, Llinos Murphy
Marian Roberts (Clerc)
Y Cyhoedd :- Cynghorydd June Jones

290.2.23 Ymddiheuriadau :- Cynghorydd John Gwynedd Roberts

291.2.23 Adroddiad y Cadeirydd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gytuno i barhau i ddechrau'r cyfarfod am 18.30 oherwydd bod Rhaglen Faith i fynd drwyddi heno. Cyfeiriodd at y dydd yn ymestyn a'r prysurdeb yn cynyddu yn y dref ar gyfer gwyliau hanner tymor. Diolchodd i'r rhai dddaru fynychu arddangosfa ddiweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac am roi adborth gwerthfawr. Roedd yn cyfeirio at bwysigrwydd cyfarfod heno gan nodi fod llai nag arfer o geisiadau ariannol wedi dod i law eleni. Efallai fod angen tynnu mwy o sylw'r cyhoedd at hyn y flwyddyn nesaf fel bod y Cyngor Tref yn gallu rhoi cefnogaeth ariannol i fwy o sefydliadau a chymdeithasau lleol.

292.2.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Ionawr 10 2023

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio

Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Ionawr 31 2023

Roedd Cyng Carol Hayes yn dymuno nodi ei anfonlonrwydd fod y Cyngor Tref wedi talu £7,920.00 am blannu coed ffrwythau a blodau ar Gae Bodawen. Nodwyd y bydd y Cyngor Tref yn derbyn

Grant Cyllid Cyfalaf Lleodd Lleol ar gyfer Natur gan Gyngor Gwynedd am y gwaith peillio/plannu coed ffrwythau ar Gae Bodawen a bod y Cyngor hefyd yn hawlio'r TAW yn ôl felly bydd y Cyngor Tref yn cael ei **ddigolledu yn llawn** am y gwariant yma .

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Connor Westwood yn eilio.

Cymeradwyo penderfyniadau'r Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Ionawr 31 2023 :-

293.2.23 Penderfynu ar gomisiwn Ffion Gwyn - Cymeradwyo'r 4 lleoliad canlynol :-

- Wrth ymyl cerflun Madocks yn edrych allan ar y Traeth a Boston Lodge
- Pencei – yn nodi adeiladau hanesyddol a diddorol yr ardal
- Melin yr Wyddfa
- Garth – yn edrych dros Borthmadog tuag at Cei Balast

Penderfynwyd o ran egwyddor i dderbyn yr argymhelliad o gomisiynu'r 4 bwrdd gwybodaeth. Bydd y Clerc yn cysylltu â Ffion Gwyn i holi am ei thelerau.

294.2.23 Cynnig gan Cyng Aled Griffith i osod panorama wedi ei ddylunio ar ddarn o lechen ar lawr wrth ddiwedd plattform Rheilffordd Ffestiniog.

Penderfynwyd o ran egwyddor i dderbyn yr argymhelliad a bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach.

295.2.23 Cynnig gan Cyng Dr Melfyn Edwards i gomisiynu darn o waith celf neu gerflun i goffau enwogion llenyddol/ diwylliannol Porthmadog i gydfynd â dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i'r ardal eleni.

Penderfynwyd o ran egwyddor i dderbyn yr argymhelliad a bydd y Clerc yn ymgynghori â Chlwb y Garreg Wen i dderbyn arweiniad ar enwogion addas.

296.2.23 Creu Is-Bwyllgor Nadolig, o dan arweiniad Cyng Llinos Murphy, i ddechrau trefnu ar gyfer Nadolig 2023.

Penderfynwyd o ran egwyddor i dderbyn yr argymhelliad.

297.2.23 Prynu 7 golau Nadolig newydd ar gyfer Nadolig 2023.

Penderfynwyd o ran egwyddor i dderbyn yr argymhelliad ond i aros nes derbyn adroddiad R.J.Electrics ar gyflwr y goleuadau presennol cyn gweithredu ymhellach.

298.2.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Aled Griffith – Cais Ariannol Tremadog 200

Cyng Carol Hayes – Cais Ariannol Yr Wylan

Cyng Sandra Bodden Jones - Cais Ariannol Tremadog 200 a'r Ganolfan

Cyng Llywelyn Rhys - Cais Ariannol Clwb Chwaraeon Madog

Cyng Llinos Murphy - Cais Ariannol Y Ganolfan

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

299.2.23 Cyng Dr Melfyn Edwards – cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gwyno am gyflwr llwybrau cyhoeddus Coed Borth y Gest a Chae Llety.

Oherwydd nad oedd y Clerc wedi darparu'r llun cywir i gydfynd â'r cynnig penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd ar gyfer cyfarfod 14.3.23. Tra roedd llun o'r arwydd yn cael ei ddangos ar y sgrin penderfynwyd symud cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards oedd yn hwyrach yn y rhaglen ymlaen i'r safle yma. Clywyd fod yr arwydd yn bodoli ers amser Cyngor Dosbarth Dwyfor yn y 70au a'i fod bellach yn amherthnasol gan fod pawb yn anwybyddu'r arwydd "Dim Cŵn" ac nad oes plant yn chwarae yn y cae chwarae erbyn hyn.

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Dîm Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd i dynnu eu sylw at yr arwydd gan nodi'r pwyntiau uchod er mwyn gofyn iddynt ei ddiweddarau yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

300.2.23 Cyng Dr Melfyn Edwards - cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad am y sefyllfa yng Nghors Borth y Gest.

Eglurodd Cyng Dr Melfyn Edwards fel yr oedd gwastraff adeiladu yn parhau i gael ei gario i'r gors a bod gwastraff adeiladu o dŷ ar Heol Amanda wedi cael ei gludo yno yn ddiweddar. Clywyd fel yr oedd un o drigolion Borth y Gest wedi cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael mwy o wybodaeth am y sefyllfa ond nad oedd wedi derbyn unrhyw ymateb. Mynegwyd pryder y gallai'r hyn sy'n cael ei gario i'r gors fod yn llygredig ac yn gwenwyno amgylchedd yr ardal.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig gan hefyd :-

- ysgrifennu at Adran Rheoleiddio Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru i fynegi pryder am beryglon yr hyn sy'n cael ei gludo i'r gors
- ysgrifennu at Adran Cynllunio ac Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd i gwyno am y llaesu dwylo
- gan nodi'r posibilrwydd o ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gwyno am y gwasanaeth
- gyrru copi o bob llythyr at Brif Weithredwr Gyngor Gwynedd.

yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

301.2.23 Cyng Llywelyn Rhys – cynnig holi Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd os oes cais wedi dod i law i osod canllaw ar y Grisiau Mawr.

Clywyd fel yr oedd canllaw wedi cael ei osod mewn 3 rhan ar hyd ochr wal y grisiau mawr. Roedd trigolion y tai yn bryderus am na chawsant unrhyw ymgynghoriad ynglyn â'i osod. Nid oes Cais Cynllunio wedi dod yn ddiweddar ynglyn ag o. Mynegwyd pryder fod y canllaw wedi cael ei osod gyda dril i mewn i waliau cerrig hanesyddol mewn ardal treftadaeth bwysig; ei fod yn amharchu treftadaeth leol ac yn gosod cynsail i eraill weithredu heb ganiatâd.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig, Cyng Aled Griffith yn eilio.

302.2.23 Cyng Dr Melfyn Edwards - penderfynu ar ddarpariaeth toiledau 2023-2024

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Gyngor Gwynedd :-

- i ddweud na fydd y Cyngor Tref yn talu am y Cytundeb y flwyddyn nesaf oni chaiff cyflwr y toiledau ei uwchraddio yn sylweddol a bod Cyngor Gwynedd yn cynnal safon uchel o ran glendid a defnyddioldeb y cyfleusterau ar hyd y flwyddyn
- i'w gwahodd i gyfarfod y Cyngor Tref i rannu eu cynlluniau ar gyfer gwella'r toiledau yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

303.2.23 Cyng Aled Griffith – Cynnig holi Swyddfa'r Eisteddfod beth yw'r diweddera ar arwyddion/fflagiau/eitemau celf ac ati cyn yr Eisteddfod.

Clywyd fod y Clerc eisoes wedi gyrru llythyr at Swyddfa'r Eisteddfod yn ymholi am hyn ym mis Medi a chafwyd ateb i ddweud y byddant yn cysylltu gyda'r Pwyllgor Apêl Lleol i drefnu addurniadau ar gyfer wythnos yr Eisteddfod.

Penderfynwyd:- y Clerc i ymholi unwaith eto.

304.2.23 Cyng Aled Griffith – Cynnig holi ysgolion Y Gorlan, Borth y Gest ac Eifion Wyn os oes ganddynt ddiddordeb i wneud cynlluniau er mwyn rhoi eitemau mewn safleoedd megis: cylchdro Bodawen, Alltwen, Penamser, o gwmpas mynedfa Tremadog/Nyrseri.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig gan gysylltu yn ogystal gyda CFFI Dyffryn Madog yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

305.2.23 Cyng Dr Melfyn Edwards - cynnig gosod arwydd newydd ar lwybr cyhoeddus Borth y Gest i Llety.

Trafodwyd y mater yma eisoes yn 299.2.23.

306.2.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. *Dyddiad cau Rhaglen Mawrth 14 2023 = Mawrth 4 2023, (Rheolau Sefydlog 8.1 “ o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor”.)*

- **Cyng Dr Melfyn Edwards** – cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gwyno am gyflwr llwybrau cyhoeddus Coed Borth y Gest a Chae Llety.
- **Cyng Llywelyn Rhys** :- cynnig ysgrifennu i'r adran berthnasol o Gyngor Gwynedd i gwyno am y cerbyd hysbysebu sydd wedi parcio ar ochr y ffordd wrth y fynedfa i fynwent Penamser.
- Ethol cynrychiolydd ar Bwyllgor Arfon Dwyfor Un Llais Cymru yn dilyn ymddiswyddiad Cyng Carol Hayes.

307.2.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :-

- Ail-yrru llythyr i'r Premier Inn i gwyno am bobl yn parcio ac yn atal mynediad i'r llwybr beicio.
- Ail-yrru ebost i'r Cynghorwyr parthed gwobrwyo Medi Harris.
- Aros mis arall am ateb gan Iwan Evans parthed perchnogaeth y Cob a'r Cob Crwn.

Cyrhaeddodd Cyng Llinos Murphy y cyfarfod. Roedd wedi mynychu'n flaenorol ar Teams ond roedd y dechnoleg wedi methu.

GOHEBIAETH :

**308.2.23 GWYN LLOYD EVANS C.G. Ymateb i 233.12.22 Hawl Tramwy Cei Newydd
GETHIN VAUGHAN JONES, Ymateb i 233.12.22 Hawl Tramwy Cei Newydd
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth**

**309.2.23 UN LLAIS CYMRU, Coffau cyhoeddus yng Nghymru
Dogfen ymgynghori (12 tudalen- copi electronig yn unig)
Canllawiau i gyrff cyhoeddus (42 tudalen copi electronig yn unig)
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth**

**310.2.23 STEFFAN JONES C.G., Derbyn gwahoddiad i gyfarfod 14.2.23
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth**

**311.2.23 CYNGOR TREF PWLLHELI, Baneri Ambiwllans Awyr
Penderfynwyd :- derbyn y cynnig i archebu baner i gefnogi cadw'r Ambiwllans Awyr yn lleol a'i gosod
unai ar wal flaen y Ganolfan (gyda chaniatâd Pwyllgor y Ganolfan) neu ar ffens ar lefel y llawr lle
nad oes problem diogelwch yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Aled Griffith yn eilio.**

**312.2.23 CYNGOR CYMUNED DOLBENMAEN, Etholiad Mai 2022
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth**

**313.2.23 MARK DRAKEFORD, Ymateb i 231.12.22 - mabwysiadu Cymru fel enw swyddogol
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth**

**314.2.23 STEFFAN PRYS ROBERTS C.G., Cofnodion cyfarfod Sefydlu Hwb Cymunedol
16.1.23
Clywyd fel yr oedd gwasanaeth Banc Bwyd De Gwynedd yn dosbarthu pecynnau bwyd i leoliadau ym
Mhorthmadog a bod cynllun ar y gweill i agor Banc Bwyd yn hen adeilad y Deintydd ar Stryd Fawr
Porthmadog. Cytunwyd y dylai'r Cyngor Tref gefnogi'r fenter yma a'r syniad o sefydlu Croeso Cynnes
yn y Ganolfan i gynnig paned am ddim.
Penderfynwyd :- edrych i mewn i'r posibilrwydd o sefydlu Croeso Cynnes yn wythnosol am gyfnod
rheolaidd yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Llinos Murpohy yn eilio.**

Ymddiheurodd y Cyng Carol Hayes am orfod gadael y cyfarfod.

**315.2.23 GWENAN PRITCHARD, Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth**

**316.2.23 UN LLAIS CYMRU, Ebost am Nodyn Cyngor Technegol(TAN15) Datblygu, llifogydd ac
erydu arfordirol
Dogfen ymgynghoriad - 59 tudalen - electronig yn unig
Sut i ymateb i'r ymgynghoriad -10 tudalen - electronig yn unig
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a phasio'r mater ymlaen i gyfarfod 14.3.23.**

**317.2.23 CATRIN HUWS - GRWP CYNEFIN, Dilyniant i gyfarfod Rhagfyr 13 2022
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl ati ac at Steffan Smith i ddiolch iddynt am y
wybodaeth drylwyr ac i nodi'r ffaith fod y ddau ohonynt yn sôn am yr un peth a'u bod ill dau yn
mynegi'r un safbwyntiau â'r Cyngor Tref ynglyn â phroblemau tai yn ardal Porthmadog, yn ôl cynnig
Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.**

**318.2.23 CYNG. CAROL HAYES, Ymddiswyddo fel cynrychiolydd ar Bwyllgor Arfon Dwyfor
Un Llais Cymru
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ethol cynrychiolydd yn ei lle yng nghyfarfod 14.3.23.**

**319.2.23 ALUN FON WILLIAMS, Ymateb i 271.1.23 Aires arfaethedig ar gyfer Camper Vans
Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth**

320.2.23 GETHIN VAUGHAN JONES, Ymateb i 266.1.23 perchnogaeth maes parcio'r Clwb Hwyllo

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth a nodi'r ffaith fod y Clwb Hwyllo yn parhau i atal mynediad i'r grisiau i lawr i'r môr a bod pob arwydd yn y maes parcio a'r rhai sydd yn gysylltiedig â'r cyfyngiadau parcio yn uniaith Saesneg.

321.2.23 2 x LUN, Llwybr Coed Borth y Gest i llety a'r arwydd

Trafodwyd eisoes yn 299.2.23.

322.2.23 STEFFAN SMITH, Hyrwyddo prynu cartref Gwynedd

Trafodwyd ar y cŷd â 317.2.23.

323.2.23 EDWARD JONES, Cae Pawb

Cynigwyd mynd yn gaeëdig i drafod yr ohebiaeth yma gan y Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

Penderfynwyd : Ymateb yn ôl y penderfyniad.

Cynigwyd mynd yn agored yn ôl gan y Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

324.2.23 UN LLAIS CYMRU, Adroddiad ar wasanaeth iechyd fasciolar

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i fynegi pryderon parhaol ynglyn â'r gwasanaeth Fasciolar yng Ngogledd Cymru ac i gefnogi ymdrechion y Cyngor Iechyd Cymunedol i wella'r gwasanaeth yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio.

325.2.23 2 x LUN, Lleoliadau posibl i'r planters / seddi aros am fws

Nodwyd y byddai'n rhaid gosod y planters wrth y llochesi bws o flaen y Parc gan iddynt fod yn rhodd gan Transport for Wales a chytunwyd fod yr ardal oedd wedi ei glustnodi ar gyfer y planters yn gyfyng iawn ac y byddai unrhyw rwystr arall ar y palmant yn creu trafferthion mynediad. Cynigiodd Cyng Dr Melfyn Edwards i dderbyn un planter yn unig, Cyng Gwilym Jones yn eilio. Aethpwyd i bleidlais a **phenderfynwyd** yn erbyn y cynnig o 5 bleidlais i 4.

326.2.23 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

HSBC	Llog Banc Rhagfyr / Ionawr 2023	£	25.10
CYNGOR GWYNEDD	Grant Cronfa Rhandiroedd Cae Pawb	£	706.00

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Ionawr 2023	£	51.36
2	Marian Roberts	Cyflog Clerc Ionawr 2023	£	922.97
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Ionawr 2023	£	230.74
4	Criccieth Cleaning	Glanhau llochesi bws	£	201.60
5	Gwynedd Skips	Clirio hen oleuadau Nadolig	£	254.40
6	Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb	Trosglwyddiad Grant Cronfa Rhandiroedd Cyngor Gwynedd	£	706.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

327.2.23 Lwfans Blynyddol Cynghorwyr 2022-2023

Ffurflenni i'w llenwi er mwyn creu record HMRC a thynnu treth incwm o'r lwfans. Angen eu dychwelyd i'r Clerc erbyn **28.2.2022** er mwyn cael taliad mis Mawrth allan o gyllideb 2022/2023.

328.2.23 Ceisiadau Ariannol 2022/2023

Penderfynwyd fel a ganlyn :-

	ENW'R ELUSEN/ CYMDEITHAS/ CLWB	CYFRANIAD 2022/23	CYNNIG/ EILIO
	Cyfraniadau A137		
1	Tremadog 200 Prosiectau Amgylcheddol	£2,000.00	Cyng. Alwyn Gruffydd Cyng. Dr Melfyn Edwards
2	Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog	£1,000.00	Cyng. Alwyn Gruffydd Cyng. Aled Griffith
3	Clwb Pêl Droed Porthmadog	£2,500.00	Cyng. Dr Melfyn Edwards Cyng. Aled Griffith
4	Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb	£750.00	Cyng. Aled Griffith Cyng Alwyn Gruffydd
5	Clwb Chwaraeon Madog	£3,000.00	Cyng. Aled Griffith Cyng Dr Melfyn Edwards
6	Clwb Rhwyfo Porthmadog	£500.00	Cyng. Alwyn Gruffydd Cyng Dr Melfyn Edwards
	Cyfraniadau A145		
7	Eisteddfod yr Urdd	£100.00	Cyng. Alwyn Gruffydd Cyng Dr Melfyn Edwards
8	Yr Wylan	£1,000.00	Cyng. Dr Melfyn Edwards Cyng Aled Griffith
9	Neuadd Goffa Tremadog	£4,000.00	Cyng. Aled Griffith Cyng Michael Roberts
10	Y Ganolfan	£15,000.00	Cyng. Gwilym Jones Cyng Dr Melfyn Edwards
	CYFANSWM A137	£9,750.00	
	CYFANSWM A145	£20,100.00	

329.2.23 CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y cais canlynol fel mater o frys yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones:-

Rhif Cais.: C23/0083/44/LL (wedi ebostio ar 9.2.23 i sylw unigol y Cynghorwyr)

Lleoliad: Porthmadog Health Centre, Porthmadog, LL49 9NU

Bwriad : Dymchwel adeilad Meddygfa Madog a'i ailddatblygu ar gyfer 8 fflat byw'n annibynnol ar gyfer rhai dros 55 (2 i fod yn fforddiadwy) gyda gwasanaeth gofal ychwanegol.

Mynegwyd siom ac anghrediniaeth fod y cais yma yn dod gerbron gan y byddai'n golygu wedyn na fyddai gan Borthmadog **yr un** Feddygfa ac y byddai'n rhaid i gleifion deithio wedyn i feddygfa Hwb Iechyd Eifionydd yng Nghricieth i dderbyn triniaeth feddygol. Nodwyd fod Cyng Gwilym Jones a'r cyn-Gynghorydd Selwyn Griffiths (fel aelod o banel cleifion Hwb Iechyd Eifionydd) eisoes wedi ysgrifennu at Keith Amos i ddatgan eu gwrthwynebiad i'r syniad ond heb dderbyn ymateb hyd yma.

Penderfynwyd:- gwrthod y cais am y rhesymau canlynol :-

- Y byddai'n golygu colli **UNIG** ganolfan feddygol Porthmadog.
- Y byddai'n amharu felly ar lesiant trigolion Porthmadog.
- Byddai'n rhaid i gleifion Porthmadog deithio i Gricieth i dderbyn sylw meddygol.
- Mae'n or-ddatblygiad sy'n amharu ar fwynderau trigolion cyfagos.
- Mae'n edrych allan dros eiddo trigolion cyfagos.
- Dim on 2 allan o'r 8 fflat fyddai'n fforddiadwy.
- Nid oes digon o lefydd parcio ar gyfer y datblygiad.

yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

(b) (wedi ebostio ar 14.2.23 i sylw unigol y Cynghorwyr)

Math o Gais : Trwydded Eiddo Newydd

Enw'r Ymgeisydd : **Cariad Gelato Ltd**

Cyfeiriad post yr Eiddo neu Clwb : Cariad Gelato Ltd

Bargain Books, The Kiosk, Stryd Fawr, Porthmadog, LL49 9LP

Dyddiad Derbyn y Cais 14-02-2023

Sylwadau i'w dderbyn erbyn :14-03-2023

Pwrpas y cais yn fras oedd nodi bod eu oriau agor o 10.00 tan 21.30 bob dydd o'r wythnos a'u bod yn gwneud cais i werthu alcohol ar ac oddiar yr eiddo o 12.00 tan 21.00 bob dydd o'r wythnos.

Penderfynwyd :- gwrthod y cais am y rhesymau canlynol :-

- Byddai'n newid cymeriad y stryd.
- Byddai'n achosi problemau anghymdeithasol ar y stryd.
- Byddai'n newid pwrpas y busnes yn llwyr.
- Byddai'n lleihau mynediad i'r Parc.
- Byddai'n annog pobl i gario eu diodydd i'r Parc.
- Mae digonedd o lefydd sy'n gwerthu alcohol .
- Mae'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu yfed alcohol ar y stryd.
- Dydi'r Cyngor Tref ddim isio hyrwyddo yfed alcohol.

yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Connor Westwood yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.00

Marian Roberts

(Clerc)

20.2.23